

Gwerthuso Mathau o Datw Sárpo, 2004

Mae malltod tatw [*Phytophthora infestans*] yn ffactor cyfyngol pwysig wrth gynhyrchu tatw ac yn broblem arbennig i dyfwyr organig yng Nghymru. Mae defnyddio amrywogaethau sy'n gwrthsefyll malltod yn strategaeth bwysig wrth reoli malltod hwyr. Ymddengys fod amrywogaethau Sárpo o Hwngari fel pe baent yn gwrthsefyll malltod yn well nag unrhyw fath arall sydd ar gael ar hyn o bryd i dyfwyr Cymru. Yn 2004, bu ADAS Pwllpeiran yn cynnal treialon maes â 19 o amrywogaethau Sárpo a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Ymchwil Savari.

Amcanion

- Archwilio lefelau'r gwrthsafiad i *Phytophthora infestans* mewn cyltifarau tatw Sárpo. Cymharu lefel y gwrthsafiad i *Phytophthora infestans* â chyltifarau sydd ar gael yn fasnachol mewn ardaloedd lle mae malltod yn berygl mawr
- Cynnal treialon amrywogaethau tatw gan gynnwys asesu cynnyrch, ar ddaliad organig ardystiedig, sefydledig
- Archwilio ymnerth a thwf cyltifarau Sárpo o dan hwsmonaeth organig

Treialon Malltod Tatw 2004 – dyddiadau allweddol

- Dyddiad plannu 18 Mai 2004
- Chwynnu â llaw 18 Mehefin 2004
- Cyflwyno'r malltod 6 Gorffennaf 2004
- Arsyllu ar y malltod ar y safle 14 Gorffennaf 2004
- Gwrysg yn cael eu torri at y ddaear 16 Medi 2004
- Dyddiad cynaeafu 2 Rhagfyr 2004

Cynllun y treial

- Trefnwyd y cyltifarau mewn cynllun bloc cyfan ar hap llwyr gyda dau atblygiad
- Plotiau dwy res ar led (1.5 m) yn mesur 3.3.m ar eu hyd

	2	2	2	2						
4	2	97.18.2	1	98.25.1	1	Sarpo	1	96.3.16	2	4
R O W S K I N G E D W A R D	R	97.18.12	R	Lady	R	98.2.	R	Stirlin	R	R
	O	95.11.	W	Wilj	O	Car	O	Majesti	O	W
	W	2000.30.2	E	98.9.	E	98.79.	E	98.36.	E	W
	S	99.27.40	M	King	M	Sarpo	M	96.4.3	M	S
		Desire	P	Y	P	97.18.	P	Maris	P	T
		97.18.3	Y	99.68.20	Y	97.18.	Y	Pentland	Y	T
		98.25.1		97.18.8		96.1.2		Majesti		Y
		Stirlin		98.9.		99.68.20		Sarpo		E
		97.18.3		95.11.		97.18.		Car		D
		Lady		96.4.3		98.79.		Sarpo		
		97.18.2		Maris		Pentland		96.3.16		
		2000.30.2		98.2.		99.27.40		97.18.8		
		Desire		97.18.12		96.3.16		Wilj		
				King		96.1.2		98.36.		
		2M	E	M	P	T	Y			
		2M	KIN	EDWAR						


Canolfan Organig Cymru · Nodyn Technegol 2 · Chwefror 2005

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SA 23 3AL. Ffon 01970 622248

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

Asesu ymnerth y canopi

- Rhoddwyd sgôr i'r ymnerth trwy asesu gorchudd y canopi dros y plot cyfan, o edrych arno o ganol pob plot



Asesu malltod y dail

- Aseswyd malltod y dail yn rheolaidd fel canran o arwynebedd y dail a ddinistriwyd gan falltod
- Cofnodwyd Cyfnodau Smith Llawn a Methiannau Agos ar gyfer y safle gan *Blight Watch*

Dadansoddiad Ystadegol

- Cynrychiolwyd cynnydd malltod deiliol ar gyfer pob cyltifar gan gromlin cynnydd afiechyd sigmoidaidd a mesurwyd dwyster drwy gyfrifo **Cromlin Cynnydd yr Arwynebedd dan yr Afiechyd** (AUDPC) gan ddefnyddio integreiddio rhifiadol

Asesiad Cynnyrch

- Cynaeafwyd plotiau â llaw ac aseswyd cynnyrch pob plot
- Cynhwyswyd yr holl gloron >35 mm yng nghyfanswm y cynnyrch ac eithrio cloron pydredig

Casgliadau

- Dangos pob cyltifar Sárpo wrthsafiad i falltod
- Roedd y gwrthsafiad i falltod mewn cyltifarau Sárpo'n fwy na'r cyltifarau sydd ar gael yn fasnachol yn y treial
- Cafwyd ystod eang o ran cynnyrch rhwng y cyltifarau
- Roedd gwahaniaethau cynnyrch ar gyfer cyltifarau masnachol yn gysylltiedig â bod yn agored i falltod deiliol
- Roedd y gwahaniaethau cynnyrch yng nghyltifarau Sárpo'n gysylltiedig ag ymnerth/cystadleuaeth chwyn yn hytrach na bod yn agored i falltod deiliol

Canolfan Organig Cymru · Nodyn Technegol 2 · Chwefror 2005

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SA 23 3AL. Ffon 01970 622248

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.